# Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

**2016 dccc 3**

## RHAN 4

CASGLU A GWAREDU GWASTRAFF

*Gwaredu gwastraff*

### 67 Pŵer i wahardd neu reoleiddio gwaredu gwastraff drwy losgi

Ym Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 (mccc 8), ar ôl adran 9 mewnosoder—

**"9A Rheoliadau sy'n gwahardd llosgi gwastraff**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ar gyfer gwahardd neu reoleiddio fel arall y weithred o losgi mathau penodedig o wastraff yng Nghymru, ac mewn cysylltiad â'i wahardd neu ei reoleiddio.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol (ymhlith pethau eraill)—

(a) diwygio rheoliadau a wnaed o dan adran 2 o Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd 1999 sy'n ymwneud â gweithrediad peiriannau llosgi gwastraff neu beiriannau cydlosgi gwastraff;

(b) darparu ar gyfer tramgwyddau mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â darpariaeth a wnaed o dan y rheoliadau;

(c) darparu ar gyfer cosbau mewn perthynas â'r tramgwyddau hynny;

(d) darparu ar gyfer awdurdodau gorfodi a swyddogaethau'r awdurdodau hynny.

(3) Yn yr adran hon—

mae i "peiriant cydlosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste co-incineration plant" yn Erthygl 3(41) o Gyfarwyddeb 2010/75/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol (atal a rheoli llygredd integredig) (Ail-lunio);

mae i "peiriant llosgi gwastraff" yr ystyr a roddir i "waste incineration plant" yn Erthygl 3(40) o'r Gyfarwyddeb honno;

ystyr "llosgi" ("*incineration*") mewn perthynas â gwastraff, yw—

(a) llosgi gwastraff mewn peiriant llosgi gwastraff neu beiriant cydlosgi gwastraff, a

(b) unrhyw driniaethau thermol eraill i'r gwastraff cyn ei losgi."

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 67 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 88(3)(b)**

**I2** A. 67 mewn grym ar 18.10.2023 gan O.S. 2023/1096, **ergl. 2(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 67.